PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 19 IONAWR 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Stubbs, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry, Sattar a/ac Wong |

96 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. Roedd y Cynghorydd Abdul Sattar wedi dweud o’r blaen y byddai’n hwyr yn dod i’r cyfarfod.

97 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymarfer Aelodau:

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Ali Ahmed | 21/02156/MNR | Personol a Rhagfarnus – yn adnabod yr ymgeisydd |
| Y Cynghorydd Iona Gordon | 21/00049/MJR | Personol a Rhagfarnus - wedi mynegi barn yn y gorffennol |
| Y Cynghorydd Keith Parry | 21/00049/MJR | Personol a Rhagfarnus - wedi mynegi barn yn y gorffennol |

98 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

99 : DEISEBAU

Daeth y ddeiseb ganlynol i law:

21/01545/MNR, 12 KENT STREET, GRANGETOWN

Siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiant.

100 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai’r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn

adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1980 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1980:

**CEISIADAU WEDI’U CYMERADWYO:**

21/02156/MNR – TROWBRIDGE
Hen Orsaf yr Heddlu, Heol Crucywel, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0EF

*Datganodd y Cynghorydd Ali Ahmed fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas â'r cais hwn ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth/penderfyniad yn ymwneud â'r eitem hon.*

Dymchwel hen orsaf yr heddlu (dosbarth defnydd sui generis) ac adeiladu canolfan gymunedol (sefydliad amhreswyl D1)

21/00049/MJR – YR EGLWYS NEWYDD/TONGWYNLAIS
Asda Coryton, Longwood Drive, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd

*Datganodd y Cynghorwyr Iona Gordon a Keith Parry fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas â'r cais hwn ac ni chymeron nhw unrhyw ran yn y drafodaeth/penderfyniad yn ymwneud â'r eitem hon.*

Cyflawni amodau 3 (Datganiad Dull Coedyddiaeth a Chynllun Amddiffyn Coed) a 4 (tirlunio meddal) 20/01108/MJR

**CEISIADAU WEDI’U GWRTHOD:**

19/02864/MNR – RADUR A PHENTRE-POETH
Cefn 17 Ael-Y-Bryn, Radur, Caerdydd, CF15 8AZ

Codi annedd (diwygiadau i ddyluniad annedd a roddwyd caniatâd dan gyfeirnod 12/02142/DCO) a garej

**CEISIADAU WEDI’U GOHIRIO:**

21/01545/MNR – GRANGETOWN
Newid defnydd o dŷ annedd C3 i dŷ amlfeddiannaeth C4

Rheswm - er mwyn gallu ystyried manylion ystafell lofft. Awdurdod dirprwyedig i’r Pennaeth Cynllunio mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd ryddhau'r penderfyniad i Gymeradwyo yn unol â'r argymhelliad, os bydd manylion y llofft yn bodloni gofynion y Gwasanaeth Cynllunio.

101 : CEISIADAU WEDI’U PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG - RHAGFYR 2021

PENDERFYNWYD: Nodi’r ceisiadau wedi’u penderfynu gan Bwerau Dirprwyedig ar gyfer mis Rhagfyr 2021.

102 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm